1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Addysg ynghylch Camddefnyddio Sylweddau

Mae gan ysgolion rôl bwysig mewn addysg cyffuriau ac alcohol

Dydd Mawrth 5 Mehefin 2007

Mae Estyn yn datgan heddiw y gallai'r arweiniad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn helpu i ohirio'r oedran y mae plant mewn ysgolion cynradd yn dechrau ysmygu ac arbrofi â chyffuriau ac alcohol. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, ychydig iawn o effaith a gafodd Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ar newid agweddau a gwerthoedd lleiafrif sylweddol sy'n parhau i ysmygu, neu yfed yn ormodol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon fel canabis.

Mae arolygwyr wedi canfod bod gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o effeithiau corfforol a chanlyniadau cyfreithiol camddefnyddio sylweddau wedi gwella ers cyflwyno'r arweiniad. Fodd bynnag, nid yw'r Cylchlythyr yn rhoi digon o arweiniad i ysgolion na'r rheiny sy'n hyfforddi athrawon ar sut i gydgysylltu'n effeithiol yr holl asiantaethau sydd angen gweithio gyda'i gilydd i helpu i atal rhai o achosion gwaelodol camddefnyddio sylweddau mewn cymunedau lleol.

Mae Estyn yn datgan bod gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a'r mwyafrif o ysgolion cynradd bolisi ar gyfer addysgu disgyblion ynghylch camddefnyddio sylweddau. Mae arweiniad gan y Cynulliad wedi bod yn ddefnyddiol i'r ysgolion hyn wrth eu helpu i ysgrifennu neu ddiwygio'u polisïau. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn arfarnu

effeithiolrwydd eu rhaglen addysg camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn golygu bod bylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion am faterion fel canlyniadau corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl cymryd sylweddau anghyfreithlon neu gyfreithlon a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad treisgar, rhyw anniogel, a niwed i blentyn heb ei eni oherwydd camddefnyddio sylweddau.

Dywed Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Susan Lewis: "Mae gan ysgolion rôl bwysig wrth helpu i ddylanwadu ar agweddau a gwerthoedd pobl ifanc. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw plant a phobl ifanc yn llwyr wybodus am yr holl risgiau personol y maent yn eu cymryd trwy ddefnyddio cyffur penodol".

Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae rhaglen gwrth-ysmygu o'r enw ASSIST (Arbrawf Stopio Ysmygu mewn Ysgolion) sy'n annog pobl ifanc mewn ysgolion i roi gwybod i eraill sydd yr un oed â nhw am beryglon a chanlyniadau ysmygu. Mae arfarniadau cynnar gan y Cyngor Ymchwil Meddygol yn dangos bod y rhaglen yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sydd mewn perygl o ysmygu yn rheolaidd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r rhan fwyaf o'i gwaith addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion yn uniongyrchol trwy ei 'Rhaglen Graidd Cyswllt Heddlu Cymru Gyfan'. Fodd bynnag, mae diffyg meddwl cysylltiedig yn genedlaethol ac yn lleol gyda'r 22 Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau ym mhob awdurdod lleol o ran cynllunio, cydlynu, darparu adnoddau, addysgu, monitro ac arfarnu yn golygu bod rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion yn llai effeithiol nag y gallent fod.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad gwell a diweddarach ar sut i ddatblygu dull amlasiantaethol, gwbl integredig i helpu i atal camddefnyddio sylweddau ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion

- Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru, wedi cyhoeddi adroddiad ar 'Addysg ynghylch Camddefnyddio Sylweddau'. Gofynnwyd am yr adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae’r adroddiad hwn yn arfarnu gweithredu ac effaith yr arweiniad ynghylch ‘Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc’ Mewn Ysgolion, Cylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Nod Estyn yw gwella safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor, i gefnogi’r weledigaeth a’r cyfeiriad strategol a amlinellir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymholiadau i’r:
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464